Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Annwyl Riant / Gwarcheidwad, Ionawr 4ydd, 2021

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd ysgolion yn parhau i ddysgu ar-lein tan o leiaf 18 Ionawr. Mae'r penderfyniad hwn wedi'i wneud o ganlyniad i gyngor meddygol a gwyddonol, a'r nifer cynyddol o achosion newydd sy'n rhoi pwysau sylweddol ar y gwasanaeth iechyd.

Er bod ysgolion yn amgylchedd diogel ar gyfer addysg o bosibl, mae gweithgarwch cysylltiedig ag ysgolion yn cael effaith ar "y gyfradd R".

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd, gan weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac yn ystyried y data gwyddonol a meddygol diweddaraf sydd ar gael, er mwyn penderfynu pryd y gall dysgwyr ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel.

Bydd eich ysgol yn rhoi rhagor o wybodaeth a chymorth i chi ynghylch dysgu gartref yn ystod y cyfnod hwn.

Mae cadw ein hysgolion ar agor yn un o'r prif flaenoriaethau, ond mae'r sefyllfa'n ddifrifol iawn ac mae'n bwysig ein bod yn dilyn y cyngor i aros gartref a diogelu ein gwasanaeth iechyd.

Bydd ysgolion yn darparu gofal plant i blant gweithwyr critigol yn ogystal â phlant agored i niwed lle bo hynny'n gwbl angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod plant yn aros gartref lle bynnag y bo modd, gan mai dyma'r lle mwyaf diogel i bawb.

Ein nod yw sicrhau bod gweithwyr rheng flaen yn gallu parhau i gyflawni eu dyletswyddau os nad oes gofal plant ganddynt, gan leihau ar yr un pryd y risgiau i'n plant a'n staff mewn ysgolion.

Rydym yn diffinio gweithwyr critigol rheng flaen fel a ganlyn:

- Gweithwyr y gwasanaeth iechyd
- Yr Heddlu
- Gwasanaethau Tân, Ambiwlans ac Achub
- Gweithwyr hanfodol y Cyngor
- Staff ysgol
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Gofal*

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

**Diffinnir gweithwyr mewn gwasanaethau gofal fel y rhai yng nghartrefi gofal y Cyngor, cartrefi gofal preifat, lleoliadau gofal plant, a'r sawl sy'n darparu gofal i bobl yn eu cartrefi yn yr awdurdod.*

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion cynradd, disgyblion dan 12 oed mewn ysgolion uwchradd neu ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth arbenigol neu unedau cyfeirio disgyblion.

Rydym yn annog rhieni i ystyried yn ofalus iawn a yw'n gwbl hanfodol eich bod yn cael gofal plant gan eich ysgol.

Ni ddylai rhieni wneud cais am ofal plant os nad ydynt ar yr amserlen i weithio ac os nad ydynt wedi edrych ar bob opsiwn posibl arall ar gyfer gofal plant, nac os ydyn nhw neu eu partneriaid yn gallu gweithio gartref.

Mae'n bosibl y bydd angen i Bennaeth ofyn am ragor o dystiolaeth (e.e. bathodyn adnabod) i gadarnhau swydd rhieni er mwyn gweld a ydynt yn gymwys.

Os oes gan eich plentyn hawl i gael prydau ysgol am ddim, byddwch yn derbyn taliad tra bydd yn dysgu gartref, i gael rhagor o wybodaeth am hyn yn ogystal â'r diweddaraf am ysgolion a Chwestiynau Cyffredin, ewch i'n gwefan sirgar.llyw.cymru/addysg.

Diolch unwaith eto am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn, ac os oes gennych unrhyw gwestiynau o gwbl, siaradwch â'ch ysgol.

Yn gywir,

Glynog Davies

Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English